Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Treffynnon

**Ysgol Gwenffrwd**

**Stryd Chwitffordd**

**Treffynnon**

**Sir y Fflint**

**CH8 7NJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Chwarae Treffynnon mewn ystafell ddosbarth yn Ysgol Gymraeg Gwenffrwd, Treffynnon, Sir y Fflint. Symudodd y Cylch i`r lleoliad presennol yn 2004 ac mae`r arweinydd cyfredol wedi gweithio yn y Cylch ers 2006 gan ymgymryd â`i rôl presennol yn Ionawr 2009. Mae ganddi gefnogaeth 3 cynorthwy-ydd a myfyriwr ar leoliad gwaith.

Mae Treffynnon yn dref Seisnigaidd a daw bron pob un o`r plant o gartrefi lle siaredir Saesneg yn bennaf. Mewn ychydig o achosion mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Mae`r holl rieini yn gefnogol iawn o`r iaith Gymraeg ac yn cefnogi datblygiad ieithyddol eu plant. Does dim un plentyn yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Daw`r rhan fwyaf o`r plant o gartrefi sy ddim yn freintiedig nac yn ddifreintiedig yn sylweddol gyda rhai yn byw mewn ardal sydd â rhywfaint o amddifadedd. Bob blwyddyn, caiff ychydig o blant eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae`r Cylch yn hapus i`w derbyn a sicrhau cefnogaeth iddynt.

Daw`r plant i`r Cylch o 2½ oed ymlaen gan symud i`r cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed.

Ar hyn o bryd, mae 29 o blant ar y gofrestr, gyda 23 yn 3 oed ac ariennir 21 ohonynt.

Mae`r Cylch ar agor am 3 prynhawn yr wythnos yn nhymor yr hydref (Medi i Ragfyr) a phob prynhawn o`r wythnos o Ionawr tan fis Gorffennaf.

Mae`r brif ystafell a ddefnyddir gan y Cylch yn gynnes ac yn groesawgar gyda digon o olau naturiol. Mae digon o adnoddau ynddi i fodloni anghenion y plant a gofynion deilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Y Cylch yn unig sy`n defnyddio`r ystafell hon sy`n golygu bod ardaloedd a gweithgareddau yn medru aros yn eu lle o ddydd i ddydd. Mae`r ardaloedd ar gyfer chwarae yn y dŵr a`r tywod wedi`u gosod mewn coridor tu allan i`r brif ystafell. Gwna`r plant ddefnydd o doiledau a chyfleusterau golchi dwylo`r ysgol.

Mae gan y Cylch ei fynedfa ei hun a defnydd o ardal chwarae tu allan. Nid yw`r ardal chwarae hon tu allan yn hawdd i`w fynd ato`n uniongyrchol felly rhaid mynd â`r plant yno. Mae`r rhieni, wrth ddod â`u plant i`r Cylch, yn medru gweld hysbysiadau a gwybodaeth caiff eu rhoi ar ffenestri ger y fynedfa.

Mae`r Cylch yn elwa o`r cysylltiad agos sydd ganddo ag Ysgol Gwenffrwd ac mae`r rhan fwyaf o`r plant yn symud i`r ysgol gynradd hon.

Arolygwyd y Cylch ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2009. Nid oedd unrhyw brif argymhellion.

Dyma arolygiad cyntaf y Cylch gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

- Mae`r holl blant yn cyflawni`n dda ac yn gwneud cynnydd da o ystyried eu hoedran a`u cefndir.
- Caiff holl blant y Cylch eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac maent yn gwneud cynnydd realistig.
- Mae mwyafrif y plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau.
- Mae mwyafrif y plant yn mwynhau creu marciau ac mae ychydig yn deall pwrpas ysgrifennu.
- Mae`r holl blant yn teimlo`n ddiogel yn y Cylch ac yn mwynhau dysgu.
- Wrth weithio mewn grwpiau bach mae`r plant yn dangos agweddau ac ymddygiad da. Mae lleiafrif o blant yn dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol ac agweddau gwael o fewn un grŵp mawr.
- Caiff y plant brofiad o ystod eang o weithgareddau sy`n eu herio a`u hysgogi.
- Mae`r staff yn cyd-weithio`n dda iawn ac yn sefydlu perthynas dda iawn gyda`r plant.
- Mae`r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda iawn.
- Mae`r arweinydd wedi sefydlu amcanion a chyfeiriad clir ar gyfer y Cylch, mae hi`n hunan-arfarnol ac mae`r gwelliannau yn canolbwyntio ar wella`r ddarpariaeth ar gyfer y plant.
- Mae`r rhieni yn gefnogol iawn o`r Cylch.

### Rhagolygon gwella

- Mae yna hanes da o wella`r ddarpariaeth.
- Mae`r staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddi yn rheolaidd, caiff yr hyfforddiant ei arfarnu a`i ddefnyddio i wella`r ddarpariaeth lle`n briodol.
- Mae amcanion yr hunanarfarnu cyfredol yn realistig ac yn canolbwyntio ar wella`r ystod o brofiadau ar gyfer y plant.
- Mae`r arweinyddiaeth a`r staff yn agored i syniadau ac yn barod i dderbyn newid.

## Argymhellion

1. Adolygu`r cwricwlwm a chynnwys agweddau sydd yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd.

2. Mireinio`r gweithdrefnau asesu er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu medrau`r plant ac i nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

3. Cynllunio ar gyfer grwpio`r plant mewn gwahanol ffurf, gwaredu gweithgareddau grŵp mawr ac amlygu gwaith grwpiau bach sy`n cyfateb yn dda â`u gallu a`u cyflawniad blaenorol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyflawni safonau da gan wneud cynnydd realistig o`u man cychwyn. Wrth weithio mewn grwpiau bach mae`r holl blant yn cymryd rhan weithredol ac yn gweithio`n galed. Maen nhw`n gwneud penderfyniadau ac yn cyd-weithio am gyfnodau hir o amser.

Caiff y plant yn y Cylch eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac mae ganddynt feistrolaeth realistig o`r iaith mewn perthynas â`u hoedran a`u gallu. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn deall geiriau a chyfarwyddiadau sylfaenol yn y Gymraeg gan ymateb yn briodol. Mae eu gallu i siarad yr iaith yn fwy cyfyngedig ond maen nhw`n ymuno mewn caneuon a hwiangerddi Cymreig gan ymuno`n briodol wrth berfformio caneuon actol. Arsylwyd ychydig o blant yn edrych ar lyfrau ac mae`r rhan fwyaf o`r plant yn mwynhau creu marciau. Mae ychydig yn ymwybodol o bwrpas ysgrifennu, gan wneud rhestr siopa ar ôl anogaeth gan yr arolygydd.

Mae gan y rhan fwyaf o`r plant syniad sylfaenol o rif ac mae llawwr o blant yn cyfrif i 15 wrth gael eu hannog gan oedolyn ar adeg cofrestru. Maen nhw`n mwynhau gweithgareddau mathemategol, fel wrth osod gwrthrychau mewn trefn a chyfateb patrymau.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn gwybod bod botymau a switsys yn gweithio rhywfaint o offer electronig, ond nid yw medrau gwybodaeth a chyfathrebu`r plant wedi`i datblygu`n ddigonol.

Mae medrau creadigol a chorfforol y plant yn datblygu`n dda. Mae gan y plant gyfleoedd i ddewis, cymysgu a defnyddio paent i greu arteffactau o ddeunyddiau jync. Mae`r plant yn cael cyfleoedd bob dydd i gael ymarfer corff a gemau egnïol er mwyn datblygu cyd-symud llaw-llygad da. Maen nhw`n gwybod fod angen gofalu am bethau byw.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o`r plant ddealltwriaeth briodol yn unol â`u hoedran a`u cyfnod datblygu o sut fedrant gadw`n iach. Maen nhw`n cydnabod yr angen i gadw`n lân a golchi`u dwylo cyn bwyd neu ar ôl mynd i`r toiled. Maen nhw`n fodlon i wneud hyn ond mae angen anogaeth ar sawl un. Mae ychydig o blant yn sylweddoli pwysigrwydd ymarfer corff. Yr hyn sy`n amlwg iawn yn y Cylch yw bod yr holl blant yn teimlo`n ddiogel, ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gam-drin corfforol a geiriol.

Mae`r holl blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ar gyfer grwpiau bach a osodir ar eu cyfer, ac yn dangos cryn fwynhad wrth ddysgu. Maen nhw`n dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn mynd i`r afael ag amrywiaeth eang o dasgau yn fodlon ac yn frwdfrydig. Mae gan bron pob plentyn yr hunan hyder i ddewis a gweithio`n annibynnol. Mae ganddynt agweddau ac ymddygiad da ac yn uniaethu â`i gilydd a gydag oedolion yn dda. Mae ymddygiad y plant ar ôl eu hymgasglu mewn grŵp mawr yn fwy o broblem gan fod lleaifrif o blant yn gamymddwyn ac yn ymyrryd â phlant eraill sy`n dysgu.

Mae gan y plant gyfleoedd i wneud penderfyniadau ac i fod yn rhan o gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r cynllunio`n cael ei wneud ar y cyd gyda`r holl staff gan gynnwys rhai o syniadau`r plant. Mae hyn yn llwyddiannus o ran ennyn diddordeb pob plentyn a thrwyddi draw, mae`r cynllunio`n canolbwyntio`n dda ar fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol y plant yn cael eu datblygu`n systematig. Nid yw cyfateb tasgau i allu a chyflawniad blaenorol y plant yn cael ei wneud yn briodol bob amser a phan mae`r grŵp cyfan gyda`i gilydd mae lleiafrif o`r plant yn colli diddordeb yn gyflym.

Caiff gweithgareddau dysgu grŵp bach eu cynllunio`n dda i alluogi plant i ffurfio perthynas dda ac i gydweithio gan ddangos goddefgarwch a pharch. Ceir cyfleoedd addas ar gyfer dysgu annibynnol ac i blant ddatblygu eu medrau corfforol a

chreadigol , a dealltwriaeth o ba mor hir mae angen gofalu am bethau fel eginblanhigion.

Mae gan yr holl blant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau allweddol a sylfaenol. Mae`r staff yn wyliadwrus iawn drwy ddefnyddio cyfres o gwestiynau, trafodaethau a sgyrsiau cyffredinol er mwyn datblygu geirfa Gymraeg y plant. Caiff y plant eu hymdrochi`n dda yn yr iaith. Mae`r traddodiadau a`r dathliadau o ddiwylliant Cymru sy`n gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi yn galluogi`r plant i wybod rhywfaint am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae`r plant yn dechrau dysgu am gynaliadwyedd ac ailgylchu drwy ailgylchu potiau iogwrt er enghraifft.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen a gwybodaeth am ddatblygiad plant. Mae`r staff yn disgwyl llawer gan bob un o`r plant.

Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolion. Defnyddir cwestiynu yn briodol i ddatblygu medrau meddwl y plant. Mae`r staff yn fodelau rôl da ac yn trin plant â pharch ac yn sensitif i`w hanghenion. Maen nhw`n ymyrryd yn ôl yr angen ac mae ymddygiad y plant wrth fynd i`r afael â gweithgareddau diddorol yn dda ar y cyfan. Mewn grwpiau mawr mae`r plant yn tueddu i fod yn afreolus, yn enwedig os nad oes ganddynt ddiddordeb yn y weithgaredd, ac, er enghraifft, os nad yw`r tasgau yn cyfateb yn dda i`w gallu a`u cyflawniad blaenorol .

Caiff y plant eu hasesu`n rheolaidd a chofnodir y canlyniadau. Mae enghreifftiau o gyflwaniadau`r plant yn cael eu cynnwys yn eu llyfryn cofnod cyflawniad unigol o dan y chwe maes dysgu fel sy`n cael eu rhestru yn amcanion y Cyfnod Sylfaen. Mae`r dyddiad yn cael ei roi ar gyflawniadau`r plant er mwyn asesu eu cynnydd. Fodd bynnag, mae`r cofnodion yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac nid ydynt bob amser yn seiliedig ar y medrau sydd yn cael eu caffael gan y plentyn ac felly nid yw`r camau nesaf yn y dysgu yn cael eu nodi`n glir.

Nid yw canlyniadau`r asesu bob tro`n cael eu defnyddio`n ddigonol yn y cynllunio er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn cyfateb yn dda i allu`r plant, yn enwedig eu gallu i wrando.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae`r Cylch yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd a thegwch yn llwyddiannus ac yn helpu`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir.

Mae gan y staff feddwl mawr o`r plant ac yn dangos parch atynt. Mae`r plant, yn eu tro, yn trin ei gilydd â pharch. Mae`r plant, yn enwedig wrth weithio mewn grwpiau bach, yn cydweithio, yn rhannu ac yn dangos blaengaredd. Yn yr achosion hyn,

mae`r plant yn gwrtais, yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ac yn dangos hunanhyder i ofyn am gymorth yn ôl yr angen.

Mae`r plant yn elwa o`r cymorth a`r gefnogaeth a ddarperir gan wasanaethau arbenigol. Mae`r staff yn wyliadwrus o anghenion plant ac mae unrhyw blant y tybir bod ganddynt anghenion dysgu arbennig neu ychwanegol yn cael eu hadolygu. Mae`r plant dan amheuaeth o fod ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol ac yn y gorffennol mae plant tebyg wedi derbyn y gefnogaeth anghenrheidiol sydd wedi bod yn llwyddiannus. Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu yn gynnar ac yn cael eu diweddaru`n rheolaidd.

Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch plant. Yr arweinydd sy`n gyfrifol ac mae`r holl staff wedi derbyn hyfforddiant. Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y Cylch ethos cyfeillgar a chartrefol sy`n gynhwysol ac yn sicrhau cyfataledd i bawb. Mae gan yr holl blant hawl gyfartal i holl feysydd y cwricwlwm ac mae agweddau goddefgar yn bodoli. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael gwared ar ymddygiad gormesol neu aflonyddwch yn llwyddiannus.

Nid oes unrhyw blentyn ag anabledd ar y gofrestr ar hyn o bryd, fodd bynnag, er na fyddai`r brif ystafell yn cynnig unrhyw anawsterau ar gyfer y rhain sydd ag anabledd corfforol, byddai mynediad i`r ardal chwarae tu allan a`r ardal chwarae ei hun yn broblem oherwydd y grisiau a`r tir ar lethr. Mae gweithdrefn gwyno ar waith ond nid yw wedi`i defnyddio.

Mae gan y Cylch ddigon o staff sydd yn oedolion â chymwysterau a phrofiad. Yn ystod yr arolygiad, roedd myfyriwr ar leoliad hefyd. Mae digon o adnoddau sy`n ddigonol ar y cyfan ar gyfer bodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y Cylch – un eithriad yw offer electronig.

Mae`r brif ystafell wedi`i gosod er mwyn galluogi`r plant i gael mynediad i weithgareddau gwahanol. Mae`r lle sydd ar gael, a`r lle storio braidd yn gyfyngedig. Mae`r Cylch yn elwa o gael defnydd unigryw o`r ystafell. Caiff yr amgylchedd y tu allan ei ddefnyddio`n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r staff yn deall ac yn derbyn eu rolau`n llawn. Maent yn cydweithio`n dda o dan arweiniad arweinydd y Cylch. Mae`r Cylch yn dangos synnwyr o bwrpas sy`n hyrwyddo ac yn cynnal safonau da. Mae`r staff yn rhannu gwerthoedd, amcanion a nodau gan ganolbwyntio ar ddarparu darpariaeth ag ansawdd da ar gyfer y plant sy`n canolbwyntio ar eu datblygiad personol, cymdeithasol ac academaidd.

Mae`r holl staff yn cyfrannu at gynllunio strategol wrth edrych am ffyrdd o wella`r ddarpariaeth. Maen nhw`n creu ethos cadarnhaol yn y Cylch sy`n canolbwyntio ar anghenion plant. Mae staff newydd yn elwa o drefniadau sefydlu a chaiff y staff eu gwerthuso`n flynyddol.

Mae`r cysylltiadau â rhieni yn dda iawn sy`n galluogi bod unrhyw faterion yn cael eu cydnabod a`u datrys.

Mae`r pwyllgor rheoli yn effeithiol ac yn gefnogol o`r Cylch. Maen nhw`n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Mae`r trefniadau ariannol o dan ofal trysorydd sy`n derbyn tâl ac yn cael eu harchwilio`n flynyddol.

Mae`r Cylch yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Yn ddiweddar, maen nhw wedi cadw eu hunain yn ymwybodol o ddatblygiadau fel sefydlu cwricwlwm y Cyfnod Syfaen, mentrau Bwyta`n Iach ac yn fwy diweddar y trefniadau hylendid deintyddol sy`n cael ei gyflwyno yn y sir.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r staff yn adnabod y Cylch yn dda gan gynnwys ei brif gryfderau a`r meysydd i`w datblygu. Mae camau wedi`u cymryd yn y gorffennol i gynnal arfer dda ac i weithredu newid. Mae`r staff yn cyfarfod yn rheolaidd a thrwy drafodaethau anffurfiol maen nhw`n nodi`r hyn sydd angen ei wneud. Mae mentrau tebyg yn cael eu nodi gan yr arweinydd sy`n cychwyn ar y cynlluniau ar gyfer gwella.

Mae`r staff yn agored i syniadau newydd ac yn hunanarfarnol. Maen nhw`n rhannu syniadau sy`n deillio o gyrsiau hyfforddi ac yn eu harfarnu yn nhermau eu gofynion nhw. Mae`r holl fentrau hyn yn canolbwyntio ar wella`r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Dros amser, mae hyn wedi bod yn llwyddiannus, ond nid yw`r staff yn hunanfodlon ac yn edrych am syniadau newydd i`w cynnwys yng nghweithgareddau`r Cylch yn barhaus.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae`r amrywiaeth dda oa bartneriaethau a sefydlwyd gan y Cylch yn gwneud cyfraniad sylweddol i gyflawniad a lles y plant.  Mae`r staff yn weithredol wrth gynnwys rhieni a gofalwyr ac mae hyn yn drefniant dwyochrog sy`n gweithio`n dda. Mae`r rhieni yn werthfawrogol iawn o`r ffordd mae`n hawdd mynd at y staff.

Caiff rhieni eu hysbysu`n dda am bob agwedd o waith y Cylch.

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli hefyd â`r ysgol gynradd ac mae`r trefniadau hyn yn hwyluso trosglwyddiad y plant i`r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae perthynas dda a chadarnhaol yn bodoli rhwng athrawes gynghorol yr Awdurdod Lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin.  Mae staff y Cylch yn werthfawrogol iawn o`r gefnogaeth maent yn ei derbyn a`r effaith ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae cysylltiadau da ac effeithiol hefyd ar waith gyda gwasanaethau arbenigol ac fe`u defnyddir pan fydd angen cefnogaeth ychwanegol ar blant.  Mae`r cysylltiadau â`r gymuned hefyd yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o`u cymuned.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Caiff adnoddau eu rheoli a`u defnyddio`n effeithiol i gefnogi`r dysgu.  Mae`r cyllid yn canolbwyntio ar ddarparu adnoddau i gefnogi dysgu`r plant.  Drwyddi draw, mae`r adnoddau yn cyfateb yn dda ag anghenion plant ac i ofynion y Cyfnod Syfaen.  Caiff y cyllid ei reoli`n dda.

Drwyddi draw, mae`r Cylch yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i’r holiadur i rieni

Cafodd 9 holiadur eu derbyn wrth rieni.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cefnogi`r Cylch yn gryf. Roedd cyfanswm o 75% yn cytuno`n gryf gyda`r canlynol:

1. Mae fy mhlentyn wedi ymgartrefu`n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.
2. Mae`r addysgu yn dda.
3. Mae`r staff yn trin plant â pharch.
4. Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
5. Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.
6. Rwy`n teimlo`n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad .
7. Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.
8. Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

Dim ond mewn 3 achos roedd anghytundeb â datganiadau yn yr holiaduron.

1. Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn (22%)
2. Rwy`n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion (14%)
3. Mae ystod dda o weihtgareddau , gan gynnwys teithiau neu ymweliadau (14%)

## Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mewn trafodaethau, siaradodd y plant am eu mwynhad o ddod i`r Cylch. Roeddent yn mwynhau chwarae tu allan a pheintio yn arbennig. Roedd nifer ohonynt wedi sôn am eu hoffter o`r staff.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)